# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar yr 14eg o Ragfyr 2022 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**

Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadair), Ruby Williams, Carys Morgan a Gerallt Davies.

**Hefyd yn bresennol:**

Ein Cyngorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**

Cynghorwyr Garym Roberts, Jocelyn Andrew a Wyn Evans, Wyn Jones a Hywel Lloyd.

**Datgelu buddiannau:**

Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**

Darllenwyd cofnodion Mis Tachwedd a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Goleuadau Derwen Gam a Ffos-y-ffin:

Ers ein cyfarfod diwethaf rydym wedi derbyn llythyr oddiwrth Simon Bray, Peirannydd Goleuadau'r Stryd yn dweud oherwydd cyfyngiadau ariannol annisgwyl, nid oes bellach unrhyw gyllid ar gael gan y Cyngor Sir i wneud cyfraniad tuag at y golau ychwanegol i Dderwen Gam a Ffos-y-ffin. Penderfynwyd i beidio gwneud dim pellach ar y mater ar hyn o bryd.

**Mater cynllunio:**
Dim.

**Swm priodol o dan adran 137(4)(a):**
Cawsom wybod mai'r swm priodol at ddibenion adran 137(4)(a) at y flwyddyn ariannol 2023-24 yw £9.93.

**Unrhyw fater arall:**
Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 11fed o Ionawr 2023.